



# GWYDDONIAETH BLWYDDYN 5-6 Cylch A – Uned 1

## Byw'n Iach

Richard Watkins, GwE  
richardwatkins@gwegogledd.cymru  
@DrRWatkins

### YSTOD

#### Cyd-ddibyniaeth organebau

1. enwau, safleoedd, swyddogaethau a meintiau cymharol prif organau bodau dynol
2. yr angen am amrywiaeth o fwydydd ac ymarfer ar gyfer iechyd da bodau dynol
3. effaith rhai cyffuriau ar y corff dynol, e.e. alcohol, hydoddyddion, tybaco

### GEIRFA ALLWEDDOL

diet cytbwys  
maeth  
ffrwythau, llysiau, startsh, cig,  
pysgod, wyau, cynnyrch llaeth,  
braster, siwgr  
halen (sodium)  
carbohydrad  
fitaminau  
ysmygu  
alcohol  
cyffuriau  
holiadur  
**newidynnau**  
**graff llinell**  
**siart bar**  
**dibynadwyedd**  
**rhagfynegi**

### Datblygu sgiliau

#### meddwl

(Integreiddio Cynllunio-  
Datblygu-Myfyrio yn y  
gweithgareddau)



### FfLIRh – Prif Linyddau Rhifedd\*

**Llinyn:** Datblygu ymresymu rhifyddol

**Elfenau:**

Adnabod prosesau a chysylltiadau  
Cynrychioli a chyfathrebu  
Adolygu

**Llinyn:** Defnyddio sgiliau data

**Elfen:** Casglu a chofnodi data, Cyflwyno a  
dadansoddi data, Dehongli canlyniadau

\*Cyfeirio at y Fframwaith Rhifedd am fanylion y sgiliau penodol sydd oddi mewn i bob elfen .

### FfLIRh – cyfleoedd Llythrennedd (ysgrifennu)

**Elfen:** Trefnu syniadau a gwybodaeth  
Ysgrifennu'n gywir

Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth, rhoi  
cyfarwyddiadau a darganfod

### Datblygu TGCh



Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned

### Y Cwricwlwm Cymreig



Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned

### Addysg Bersonol a Chymdeithasol



Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned

## Gwyddoniaeth – Cynlluniau Tymor Canolig (bob hanner tymor)

Grŵp blwyddyn	<b>5-6</b>	Tymor	<b>Cylch A - Uned 1</b>	Teitl yr Uned	<b>Byw'n iach</b>
<p><b>YSTOD</b> <i>Cyd-ddibyniaeth organebau</i></p> <p>1. enwau, safleoedd, swyddogaethau a meintiau cymharol prif organau bodau dynol</p> <p>2. yr angen i bobl gael amrywiaeth o fwydydd ac ymarfer corff i fod yn iach!</p> <p>3. effaith rhai cyffuriau ar y corff dynol, e.e. alcohol, hydoddyddion, tybaco</p>					
<b>Cysylltiadau trawsgwricwlaidd:</b>					
<b>Sgiliau</b>  (Prif sgiliau mewn llythrennau italig trwm)	<b>Gweithgareddau posibl</b>			<b>Adnoddau a dolenni</b>	<b>Cyfleoedd i asesu</b>
<p><b>CYNLLUNIO</b></p> <p><i>Nodi bylchau mewn gwybodaeth flaenorol</i></p> <p>Gofyn cwestiynau perthnasol</p>	<p><b>1. Y Cwestiwn Mawr: Beth wyddoch chi am gyffuriau, alcohol a thybaco?</b></p> <p>Cyflwyno'r pwnc a holi'r disgyblion am beryglon cyffuriau, alcohol a hydoddyddion. Beth mae'r disgyblion yn ei wybod am y term 'cyffur'?</p> <p>Ystyriwch ddefnyddio naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gêm gwir/gau, pa un sy'n wahanol neu weithgareddau rhyngweithiol ar-lein</li> <li>• Cartwnau Cysyniadau a/neu glipliau fideo.</li> <li>• Dechrau creu bwrdd graffiti o gwestiynau'r disgyblion, nodi'r rhai y gellir eu harchwilio a/neu ymchwilio iddynt.</li> </ul> <p>Dechrau creu grid KWL. Gofyn i'r disgyblion ddweud sut y maent yn bwriadu darganfod atebion. Rhestru'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael.</p>			<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/cym/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/cym/index.html</a></p> <p><a href="http://www.echalk.co.uk/">http://www.echalk.co.uk/</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/">http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/nature/">http://www.bbc.co.uk/nature/</a></p>	<p>Defnyddio'ch strategaeth/offeryn diagnostig dewisedig</p>

<p><b>CYNLLUNIO</b>  <b>Cynllunio'r dull/proses i'w defnyddio</b></p> <p><b>Gofyn cwestiynau perthnasol</b></p> <p><b>DATBLYGU</b>  Cymharu canlyniadau</p> <p><b>MYFYRIO</b>  Penderfynu a oedd y dull yn llwyddiannus</p>	<p><b>2. Y Cwestiwn Mawr: Allwch chi gynllunio cwestiynau i ofyn i arbenigwr?</b></p> <p>Gofyn i'r disgyblion gynllunio cwestiynau am gyffuriau a hydoddyddion ar gyfer ymweliad gan swyddog cyswllt yr heddlu a/neu nyrs yr ysgol .</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Nodi cwestiynau a chynllunio'r broses/dull i'w ddefnyddio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa gwestiynau sydd gan y disgyblion yn ymwneud â'r pynciau hyn? Gellir defnyddio gweithgaredd mat bwrdd i roi cyfle iddynt rannu syniadau.</li> <li>• A yw'n realistig gofyn unrhyw fath o gwestiynau i'r arbenigwr? Gellir cyfeirio at y grid KWL cychwynnol i benderfynu ar yr hyn y mae'r disgyblion am ei ddysgu.</li> <li>• Casglu cwestiynau enghreifftiol gan y dosbarth a'u rhestru ar y bwrdd.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Nodi cwestiynau a chynllunio'r broses/dull i'w ddefnyddio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y disgyblion i restru'r cwestiynau mewn grwpiau a blaenoriaethu'r cwestiynau. Ystyried defnyddio'r dull rhestru diemwnt i helpu'r disgyblion i flaenoriaethu'r cwestiynau.</li> <li>• Rhoi amser i'r disgyblion ymarfer eu cwestiynau. Canolbwyntio ar sgiliau llefaredd.</li> <li>• Beth sy'n gwneud siaradwr cyhoeddus 'da'?</li> <li>• Gofyn i'r disgyblion ysgrifennu llythyr at yr heddlu/nyrs yn eu gwahodd i'r ysgol i ateb cwestiynau'r disgyblion.</li> <li>• Dangos sut i ysgrifennu llythyrau gan nodi'r prif nodweddion.</li> </ul>	<p><a href="http://news.bbc.co.uk/cbbcnews/hi/find_out/guides/uk/drugs/newsid_1609000/1609624.stm">http://news.bbc.co.uk/cbbcnews/hi/find_out/guides/uk/drugs/newsid_1609000/1609624.stm</a></p>	<p><b>A yw'r disgyblion yn gallu cynllunio'r dull gan ddefnyddio syniadau gwyddonol? (Lefel 4)</b></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu penderfynu ar feini prawf llwyddiant? (Lefel 4)</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu cyfiawnhau'r meini prawf llwyddiant? (Lefel 5)</p>
---	--	--	---

<p><b>CYNLLUNIO</b> <i>Cynllunio'r dull/proses i'w defnyddio</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> Nodi patrymau a thueddiadau yn y canlyniadau</p> <p><b>MYFYRIO</b> Disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddysgu</p>	<p><b>3. Y Cwestiwn Mawr: Allwch chi greu holiadur cyffuriau / alcohol i rieni?</b></p> <p>Y disgyblion i wrando ar y sesiwn holi ac ateb gyda swyddog yr heddlu/nyrs ysgol ac ymateb iddi.</p> <p>Adolygu'r wybodaeth newydd y mae'r disgyblion wedi'i chael. A yw'r disgyblion yn gallu creu holiadur i brofi gwybodaeth oedolion a/neu ddisgyblion eraill yr ysgol?</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cynllunio'r broses/dull i'w ddefnyddio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod defnyddio holiaduron fel dull o gael barn a/neu ddata</li> <li>Pa gwestiynau y mae angen eu cynnwys yn ein holiadur cyffuriau / alcohol?</li> <li>Oes angen i'r cwestiynau fod yn 'agored' neu'n 'gaeedig'? Dywedwch wrth y disgyblion mai'r bwriad yw plotio'r ymatebion ar ffurf siart bar - felly, a oes angen cwestiynau caeedig er mwyn creu rhicbren?</li> <li>Dangos enghreifftiau o holiaduron – trafod nodweddion. Beth sy'n gwneud holiadur 'da'?</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Cynllunio'r broses/dull i'w ddefnyddio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod defnyddio holiaduron fel dull o gael barn a/neu ddata.</li> <li>Pa gwestiynau y mae angen eu cynnwys yn yr holiadur?</li> <li>Y disgyblion i gynllunio a chreu holiadur cyffuriau / alcohol</li> <li>Tasg logio fel gwaith cartref / gofyn i rinie neu ffrindiau lenwi'r holiadur .</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gwestiynu neu i ddarganfod</b> <b>Math testun: Holiadur</b></p>		<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cynllunio'r dull gan ddefnyddio syniadau gwyddonol? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi patrymau a thueddiadau? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>CYFATHREBU</b> <i>Defnyddio tablau a siartiau i gyflwyno'r canlyniadau</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> Llunio barn ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</p> <p><b>MYFYRIO</b> Cysylltu'r hyn a ddysgwyd â sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol ac mewn mannau eraill</p>	<p><b>4. Y Cwestiwn Mawr: Sut rydym yn cyflwyno data o'n holiaduron?</b></p> <p>Atgoffa'r disgyblion am yr hyn y maent wedi'i wneud a'i drafod</p> <p><b>Ymarfer y sgil – Defnyddio'r siartiau bar i gyflwyno'r canlyniadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu mathau o graffiau - egluro natur data categorig a di-dor. Cyflwyno/adolygu taflen graffiau'r disgyblion.</li> <li>Mae geiriau wedi'u plotio yn erbyn rhifau yn cynhyrchu siart bar.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Defnyddio'r siartiau bar i gyflwyno'r canlyniadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried gofyn i'r disgyblion ddewis 5 cwestiwn allweddol o'u holiadur a phlotio'r ymatebion cywir ar ffurf siart bar.</li> <li>Disgyblion llai galluog i greu siart bar gyda chymorth</li> <li>Disgyblion mwy galluog: creu eu siart bar eu hunain, gan gynnwys graddfeydd.</li> <li>Pa batrymau all y disgyblion eu disgrifio o'r canlyniadau?</li> <li>Gofyn i'r disgyblion anodi eu graff bar gyda gosodiad gwir a gau am y data. Cyfnewid graffiau a gofyn i'r grwpiau nodi pa osodiadau sy'n wir ai peidio.</li> </ul>	<p><a href="http://www.echalk.co.uk/">http://www.echalk.co.uk/</a></p> <p><a href="http://www.mrnussbaum.com/coo/agraphing.htm">http://www.mrnussbaum.com/coo/agraphing.htm</a></p> <p><a href="http://www.amblesideprimary.co.uk/ambleweb/mentalmaths/grapher.html">http://www.amblesideprimary.co.uk/ambleweb/mentalmaths/grapher.html</a></p> <p>'Which graph?' template</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu creu tablau a siartiau? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi patrymau a thueddiadau? (Lefel 4)</i></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau a llunio barn ystyriol? (Lefel 4)</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau sy'n gyson â'r darganfyddiadau ac ystyried safbwyntiau pobl eraill? (Lefel 5)</p>

<p><b>CYNLLUNIO</b> <i>Chwilio am wybodaeth berthnasol</i></p> <p>Gofyn cwestiynau perthnasol</p> <p><b>DATBLYGU</b> Llunio barn ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</p> <p><b>MYFYRIO</b> Penderfynu a oedd y dull yn llwyddiannus</p>	<p><b>5. Y Cwestiwn Mawr: Beth yw effeithiau niweidiol ysmegu?</b></p> <p>Adolygu gweithgaredd <b>Ysmegu NGfL</b>. Pa gwestiynau sydd gan y disgyblion am ysmegu a'i effeithiau niweidiol?</p> <p><b>SYLWCH: Bydd angen bod yn ofalus os oes aelod o deulu rhai o'r disgyblion yn ysmegu</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol a chael hyd iddi</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu unrhyw waith ymchwil a wnaed eisoes gan y disgyblion. A oes modd ei wella.? Dangos enghreifftiau o amrywiol gyflwyniadau. Pa nodweddion sydd i'w gweld?</li> <li>• Sut fyddent yn hoffi cyflwyno'u canlyniadau? Beth fydd y meini prawf llwyddiant ar gyfer y cyflwyniad y maent wedi'i ddewis? (ffeil o ffeithiau, llythyr, e-bost, cyflwyniad llafar)</li> <li>• Dweud wrth y disgyblion y dylent geisio cael hyd i wybodaeth a syniadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u cwestiwn/cwestiynau penodol nhw.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol a chael hyd iddi</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caniatáu i'r disgyblion ymchwilio i amrywiol lyfrau a gwefannau i gasglu gwybodaeth.</li> <li>• Adolygu'r dull a nodi prif nodweddion y ffynonellau gwybodaeth.</li> <li>• Trafod 'ffraith' a 'barn' ym myd gwyddoniaeth.</li> </ul>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/cym/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/cym/index.html</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth a syniadau gwyddonol perthnasol? (lefel 5)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth a syniadau amrywiol? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>CYNLLUNIO</b> <i>Chwilio am wybodaeth berthnasol</i></p> <p>Gofyn cwestiynau perthnasol</p> <p><b>DATBLYGU</b> Llunio barn ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</p> <p><b>MYFYRIO</b> Awgrymu sut y gellid gwella'r dull a ddefnyddiwyd</p>	<p><b>6. Y Cwestiwn Mawr: Diet ac ymarfer corff - allwch chi dorri'r ddadl?</b></p> <p>Holi'r disgyblion am eu ffordd o fyw. Gofyn iddynt ychwanegu gosodiadau am nodweddion ffyrdd iach ac afiach o fyw. Trafodwch.</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol. DYG uned 8, t.14</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafod syniadau gan ddefnyddio gweithgaredd mat bwrdd a/neu fap cysyniadau.</li> <li>• Herio'r disgyblion i ddewis cwestiwn i ymchwilio iddo.</li> <li>• Trafod ffaith a barn gan gyfeirio at storïau'n ymwneud ag iechyd.</li> <li>• Trafod y gwahanol ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i'r disgyblion.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Disgyblion i chwilio am wybodaeth er mwyn ateb cwestiwn / cwestiynau penodol.</li> <li>• Pa farn all y disgyblion ei ffurfio'n awr o ganlyniad i'w hymchwil?</li> <li>• A yw'r disgyblion yn gallu didoli gosodiadau yn ffeithiau a barn?</li> <li>• Gall y disgyblion ddewis cyflwyno'u canlyniadau/barn ar ffurf cyflwyniad llafar.</li> </ul>	<p><a href="http://parentsforhealth.org/">http://parentsforhealth.org/</a></p> <p><a href="http://www.greatgrubclub.com/?ikId=8a8ae4cc23bf38810123ebd78ff7e63&amp;it=1&amp;jadid=3765204675&amp;js=1&amp;jk=healthy%20eating%20kids&amp;jsid=16395&amp;jmt=1&amp;gclid=CNWjijNvG0awCFVBTfAodYnOQNA">http://www.greatgrubclub.com/?ikId=8a8ae4cc23bf38810123ebd78ff7e63&amp;it=1&amp;jadid=3765204675&amp;js=1&amp;jk=healthy%20eating%20kids&amp;jsid=16395&amp;jmt=1&amp;gclid=CNWjijNvG0awCFVBTfAodYnOQNA</a></p> <p><a href="http://www.healthykids.org.uk/">http://www.healthykids.org.uk/</a></p> <p><a href="http://kidshealth.org/teen/food_fit/ness/sports/eatnrun.html">http://kidshealth.org/teen/food_fit/ness/sports/eatnrun.html</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth a syniadau gwyddonol perthnasol? (lefel 5)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth a syniadau amrywiol? (Lefel 4)</i></p>

<p><b>CYNLLUNIO</b> Cael hyd i wybodaeth a syniadau perthnasol</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Llunio barn ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> <i>Cysylltu'r hyn a ddysgwyd â sefyllfaoedd tebyg y tu allan i'r ysgol</i></p>	<p><b>7. Y Cwestiwn Mawr: Ai'r un diet sydd gan bawb?</b></p> <p>Cyflwyno'r Cwestiwn Mawr gan ofyn i'r disgyblion am eu syniadau drwy gyfrwng gweithgaredd mat bwrdd neu strategaeth debyg.</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Llunio barn ystyriol a chysylltu'r dysgu. DYG uned 8, t.18</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi gwahanol wybodaeth a syniadau i'r disgyblion am ddiet pobl ac anifeiliaid eraill.</li> <li>Rhowch gyfle i'r disgyblion ymchwilio i gael rhagor o wybodaeth os oes angen, gan ofyn iddynt yn benodol ddarganfod pam mae gwahanol grwpiau o fwydydd yn ddefnyddiol i'r corff.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Llunio barn ystyriol a chysylltu'r dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pam mae angen diet penodol ar athletwyr?</li> <li>Pa fwydydd sy'n rhoi egni? Pa fwydydd sy'n helpu'r corff i dyfu ac i wella?</li> <li>Faint o ddŵr ddylai oedolyn ei yfed bob dydd?</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth</b> <b>Math testun: Ysgrifennu gwybodaeth (adroddiad heb fod yn nhrefn amser)</b></p>	<p><a href="http://parentsforhealth.org/">http://parentsforhealth.org/</a></p> <p><a href="http://www.greatgrubclub.com/?ikid=8a8ae4cc23bf38810123ebd78fff7e63&amp;it=1&amp;jadid=3765204675&amp;js=1&amp;ik=healthy%20eating%20kids&amp;jsid=16395&amp;jmt=1&amp;qclid=CNWjjNvG0awCFVBTfAodYnOQNA">http://www.greatgrubclub.com/?ikid=8a8ae4cc23bf38810123ebd78fff7e63&amp;it=1&amp;jadid=3765204675&amp;js=1&amp;ik=healthy%20eating%20kids&amp;jsid=16395&amp;jmt=1&amp;qclid=CNWjjNvG0awCFVBTfAodYnOQNA</a></p> <p><a href="http://www.healthykids.org.uk/">http://www.healthykids.org.uk/</a></p> <p><a href="http://kidshealth.org/teen/food_fitness/sports/eatnrun.html">http://kidshealth.org/teen/food_fitness/sports/eatnrun.html</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau a llunio barn ystyriol? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau sy'n gyson â'r darganfydiadau ac ystyried safbwyntiau pobl eraill? (Lefel 5)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cysylltu'r hyn a ddysgwyd â sefyllfaoedd tebyg? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>CYFATHREBU</b> Defnyddio tablau, graffiau bar a llinell</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Llunio barn ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Awgrymu sut y gellid gwella'r dull a ddefnyddiwyd</p>	<p><b>8. Y Cwestiwn Mawr: Ydi pawb yn dilyn yr un diet? ...parhad.</b></p> <p>Parhau â'r dasg flaenorol.</p> <p><b>Ymarfer y sgil – Llunio barn ystyriol a chysylltu'r dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Caniatau i'r disgyblion ddewis dull o gyflwyno'u canlyniadau (llythyr, poster, hysbyseb neu gyflwyniad llafar)</li> <li>Gall y disgyblion gyflwyno'u syniadau ar ffurf dyddiadur athletwr.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth</b> <b>Math testun: nodiadau ac anodi</b></p>		<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau sy'n gyson â'r darganfydiadau ac ystyried safbwyntiau pobl eraill? (Lefel 5)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cysylltu'r hyn a ddysgwyd â sefyllfaoedd tebyg? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>MYFYRIO</b> <i>Disgrifio sut y maent wedi dysgu, a nodi'r dulliau a weithiodd orau.</i></p> <p>Cysylltu'r hyn a ddysgwyd â sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol ac mewn mannau eraill.</p>	<p>Ailedrych ar yr asesiad diagnostig cychwynnol. A yw'r disgyblion yn gallu dangos dealltwriaeth ar ddiwedd y pwnc a thrafod y sgiliau newydd y maent wedi'u dysgu a/neu wedi'u hymarfer?</p>	<p>Defnyddio'r strategaeth asesu i ddysgu ddewisedig</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu disgrifio sut y maent wedi dysgu ac wedi nodi'r dulliau a weithiodd orau? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi'r strategaeth meddwl/dysgu a ddefnyddiwyd? (Lefel 5)</i></p>
<p>Gwerthuso</p>			

